


Blwyddyn 3

Mrs. Rhian Glyn, Miss. Catrin Morris, Mrs. Carys Huws,
Mrs. Dilys Rees Hughes, a Mrs. Debbie Jones



THEMA'R TYMOR

Tymor yma ein thema fydd
'PORTMEIRION'

<http://www.portmeirion-village.com/?IID=2>




Yn ystod y tymor yma bydd ein gwaith yn y pynciau craidd yn cynnwys:

laith: Astudio llyfrau 'Ynys Hud' gan Mererid Hopwood , 'Pentrefi Hud' gan Sian Lewis, a 'Portmeirion Children ABC' gan Sarah Nechamkin.

Gwyddoniaeth: Ymchwilio i gynefinoedd lleol a chreu ymchwiliad i gynefin y pry lludw. Bydd gwaith data yn codi o hyn.

Bydd cyfle i leoli a deall lleoedd yn ogystal a gwaith map. Byddwn yn astudio arddull yr artist David Hockney, i gynnwys ein profiadau ym Mhortmeirion.



GWAITH CARTREF

Bydd gwaith cartref yn cael ei rannu ar Ddydd Gwener a bydd gofyn iddynt ei ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Llun.

Ar benwythnosau pan na fydd gwaith cartref i'r plant, yna, gellir ymchwilio i'r thema, ymarfer tablau targed, edrych ar wefannau defnyddiol yn ogystal a darllen.

COFNOD DARLLEN

Er mwyn cefnogi datblygiad eich plentyn, cyngorir chi i gyd-ddarllen am rhwng 5-10 munud yn ddyddiol.

Bydd y plant yn dod a'u Cofnod Darllen adref ar Ddydd Gwener a'i ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Llun.

TRIPIAU/GWEITHGAREDDAU

Byddem yn ymweld â Portmeirion er mwyn ymchwilio i'r thema a chynnal gwaith maes. Bydd nifer o weithgareddau'r Urdd, e.e. rhedeg trawsgwlad ac athletau. Hefyd, cynhelir nifer o gystadlaethau rhedeg - gweler hysbysfwrdd yr ysgol. Bydd gweithgareddau dalgylchol yn cael eu cynnal yn ystod y tymor, yn ogystal a'r mabolgampau blynyddol yn ystod yr Wythnos Chwaraeon.

Dyfalbarhau

Rwy'n siwr y byddwch yn cytuno, Mae'n wir beth mae pobl yn ddweud, "Mwyaf yn y byd y gwnewch chi ymarfer, Gorau yn y byd y byddwch chi'n gwneud!"

ADDYSG GORFFOROL

Yn ystod y gwersi Addysg Gorfforol y tymor yma bydd plant Blwyddyn 3 yn rhedeg trawsgwlad, datblygu sgiliau athletau a chyfeiriannu.

Gofynnir yn garedig i'r plant ddod a'u dillad Addysg Gorfforol i'r ysgol ar Ddydd Llun a'u gadael yn yr ysgol am yr wythnos.